**THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES**

# CYLCHLYTHYR

YSGOL CALON CYMRU

17eg MEHEFIN 2020



## Diweddariad ar Ail-agor Ysgol Calon Cymru

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Ar ddechrau'r mis, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd ysgolion yn ail-agor yn rhannol am bedair wythnos rhwng dydd Llun 29ain Mehefin a dydd Gwener 24ain Gorffennaf. Dyma'r cam cyntaf i ailddechrau addysg arferol, ac mae'n rhoi cyfle i'r disgyblion fynychu'r ysgol ar dri achlysur cyn bod gwyliau'r haf yn dechrau. Nod y cyfnod hwn yw rhoi cyfle i ddisgyblion **'Ailgydio, Dal i fyny a Pharatoi'** cyn dechrau'r flwyddyn academaidd nesaf ym mis Medi 2020. Bydd yn rhoi i ddisgyblion Ysgol Calon Cymru amser cyswllt hanfodol gyda staff yr ysgol a chyd-ddysgwyr, a bydd yn golygu y gall ein hysgol fireinio ymhellach ein darpariaeth lles a dysgu cymysg cyn tymor yr hydref.

Roeddwn am ddefnyddio'r llythyr hwn fel cyfle i ateb, gorau fedraf ar hyn o bryd, rai cwestiynau cyffredin am y cyfnod nesaf hwn. Rwy'n sylweddoli ein bod mewn cyfnod ansicr iawn a gobeithiaf y bydd y wybodaeth hon yn rhoi hyder i chi yn null yr ysgol. Wedi dweud hynny, mae yna rai cwestiynau na fedraf eu hateb eto. Y rheswm dros hyn yw na ellir cwblhau cynlluniau Ysgol Calon Cymru hyd oni derbynniwn wybodaeth ychwanegol gan gydweithwyr yng Nghyngor Sir Powys. Er enghraifft, allwn ni ddim cadarnhau pa grwpiau o blant all fynychu'r ysgol ar ddyddiau penodol nes i ni gael wybodaeth am drefniadau cludiant.

## Cryfhau Cyfathrebiad

Er mwyn i chi fod yn gyfredol â holl gynlluniau a datblygiadau diweddaraf yr ysgol, dydd Llun nesaf byddwn yn rhannu tudalen benodol ar wefan yr ysgol a ddyluniwyd i'ch cefnogi chi a'ch mab/merch i wneud y cam nôl i'r ysgol. Bydd ardal hon y wefan yn cynnwys yr holl wybodaeth allweddol fydd ei angen arnoch i gefnogi eich plentyn i ddechrau nôl yn hyderus yn Ysgol Calon Cymru. Byddaf yn cysylltu â chi eto'r wythnos nesaf er mwyn rhannu hyn gyda chi.

Yn y cyfamser, os oes gennych gwestiwn nad wyf wedi ei ateb yn y fan hon, yna cofiwch gysylltu â'r ysgol. Rhestrir ein manylion cyswllt ar ein gwefan: www.ysgolcalon.cymru/contact

---

***C: Oes rhaid i'm plentyn fynychu'r ysgol yn ystod y cyfnod pedair wythnos o ddydd Llun 29[ain] Mehefin i ddydd Gwener 24[ain] Gorffennaf?***

A: Yr ateb byr a diffiniol i'r cwestiwn hwn yw 'nac oes'. Mae Llywodraeth Cymru, yn gywir, wedi cydnabod pryderon rhieni a gofalwyr, ac maent wedi dweud NAD oes rhaid i blant ddychwelyd i'r ysgol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'n bwysig nodi hefyd na chaiff yr un rhiant, gofalwr na phlentyn ei gosbi am beidio â mynychu. Er hynny, p'un ai ydynt yn dychwelyd i'r campws neu beidio yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir i holl ddisgyblion Ysgol Calon Cymru ymrwymo'n llwyr i'n rhaglen ddysgu ar-lein, a bydd hyn yn parhau ochr yn ochr â'r dychweliad cynlluniedig i'r ysgol.

---

***C: Mae rhywun yn ein tŷ'n gwarchod, felly a ddylai fy mhlentyn ddychwelyd i'r ysgol?***

A: Unwaith eto, yr ateb byr a diffiniol i'r cwestiwn hwn yw 'na'. Nid oes disgwyl i ddisgyblion sy'n gwarchod neu mewn mwy o risg ddychwelyd y tymor hwn. Mae hyn yn berthnasol hefyd i ddisgyblion sy'n byw gyda pherthnasau sy'n gwarchod.

---

***C: Mae fy mhentyn ym Mlwyddyn11/Blwyddyn 13, oes rhaid iddynt ddychwelyd i'r ysgol?***

A: Does dim disgwyl i blant a ddechreuodd y flwyddyn ysgol 2019/20 ym Mlwyddyn 11 neu Flwyddyn 13 ddychwelyd i'r ysgol.

---

***C: Mae gan fy mhlentyn anghenion arbennig sylweddol, beth fydd y trefniadau ar eu cyfer hwy?***

A: I rieni/gofalwyr plant ag anghenion arbennig sylweddol, bydd aelod o'r tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cysylltu er mwyn trafod y trefniad mwyaf priodol.

---

***C: Pe bawn yn anfon fy mhlentyn i'r ysgol, sut alla i fod yn siŵr eu bod yn ddiogel?***

A: Ymgymerwyd eisoes â chynllunio gofalus ac asesiad risg er mwyn sicrhau bod ein hysgol yn amgylchedd ddiogel ar gyfer disgyblion a staff. Pan fyddwn yn dychwelyd, bydd yr ysgol yn gweithredu rheol cadw pellter cymdeithasol 2-metr llym, trefn lanhau drwyadl a rheolaeth ofalus o olchi dwylo a chyfleusterau glanweithdra eraill. Er mwyn sicrhau y cedwir at y pellter cymdeithasol, gweithredir terfyn llym ar feintiau dosbarthiadau, a gosodir arwyddion yn y coridorau a mannau cymunedol eraill er mwyn hwyluso pellter cymdeithasol. Cyfyngir ar symud o gwmpas adeilad a champws yr ysgol, a chyfyngir staff a disgyblion i ardaloedd a bennir yn glir.

---

***C: Fydd rhaid i'm plentyn wisgo Cyfarpar Diogelu Personol (CDP - PPE)?***

A: Dywedodd Llywodraeth Cymru nad oes angen gwisgo CDP yn yr ystafell ddosbarth lle mae cadw pellter cymdeithasol yn weithredol. Felly, does dim angen i staff a disgyblion Ysgol Calon Cymru wisgo CDP yn ystod y cyfnod hwn. Er hynny, mae croeso i'ch plentyn wisgo CDP wrth fynychu'r ysgol pe bai hyn yn gwneud iddynt deimlo'n fwy cysurus.

***C: Beth fydd yn digwydd pe bai fy mhlentyn, plant eraill neu staff yn dangos symptomau o'r feirws?***

A: Bydd unrhyw un sy'n dangos symptomau o'r feirws yn ystod y diwrnod ysgol yn cael ei ynysu a'i gasglu ar unwaith. Yna dilynnir y canllaw cenedlaethol er mwyn rheoli lledaeniad y feirws.

***C: Pa mor aml fydd fy mhentyn yn medru mynd i'r ysgol?***

A: Dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai pob ysgol anelu at wneud trefniadau i bob plentyn fynychu am DRI DIWRNOD rhwng dydd Llun 29ain Mehefin i ddydd Gwener 24ain Gorffennaf. Bydd pob ysgol unigol yn diffinio hyd y dyddiau hyn.

***C: Pa mor hir fydd y diwrnod?***

A: Yn Ysgol Calon Cymru, rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar y sail y bydd y tri diwrnod hyn yn cynrychioli tri diwrnod ysgol arferol – yn hytrach na chwe sesiwn hanner diwrnod, er enmghraifft. Er hynny, fedrwn ni ddim cadarnhau amseroedd dechrau a gorffen nes i ni gael rhagor o wybodaeth am gludiant gan Gyngor Sir Powys.

***C: Pa dri diwrnod fydd fy mhelntyn yn mynychu?***

A: Unwaith eto, penderfynir ar hyn wedi i ni gael rhagor o wybodaeth am gludiant gan Gyngor Sir Powys ac wedi i ni gadarnhau ein hamserlen. Wedi i ni gael y wybodaeth ychwanegol hyn, byddaf yn ysgrifennu atoch eto i rannu cynlluniau manylach a'ch cyfeirio at ardaloedd dynodedig gwefan yr ysgol.

***C: Sut ddylai fy mhlentyn deithio'n ddiogel i'r ysgol ac oddi yno?***

A: Cyngor Llywodraeth Cymru yw y dylai rhieni/gofalwyr, lle'n bosibl, hebrwng eu plant i'r ysgol ac oddi yno. Er hynny, rwy'n sylweddoli nad yw hyn yn ymarferol nac yn bosibl i lawer o rieni/gofalwyr a disgyblion.

---

***C: Mewn amgylchiadau arferol, mae fy mhlentyn yn rhannu lifft i'r ysgol gyda theulu gwahanol. Ydy hyn yn dal i fod yn bosibl?***

A: Ar gyfer y rheiny sy'n teithio i'r ysgol mewn car, dywedodd Llywodraeth Cymru na ddylai mwy na dau deulu deithio gyda'i gilydd a dim ond pan ellir gadw at bellter cymdeithasol. Mae'r rheol pellter cymdeithasol hyn yn golygu bod rhannu car arferol yn amhosibl i lawer o rieni/gofalwyr a disgyblion.

---

***C: Fydd fy mhlentyn yn dal i fedru teithio i'r ysgol ar y bws?***

A: Fel y soniais eisoes, rydym yn dal i aros am ragor o wybodaeth am gludiant gan Gyngor Sir Powys. Bydd hyn yn hysbysu'r trefniadau teithio ar fws. Er hynny, fe'm hysbyswyd y bydd cadw pellter cymdeithasol mewn grym ar bob bws. Bydd hyn yn cyfyngu nifer y plant a all deithio ar fws ar unrhyw adeg.

---

***C: Pa mor aml bydd ardaloedd  toiled yn cael eu glanhau, a pha gyfleusterau fydd ar gael?***

A: Bydd y toiledau'n cael eu glanhau'n rheolaidd drwy'r dydd. Bydd cyfleusterau toiled a golchi dwylo ar gael ymhob ardal o'r ysgol fydd ar agor i ddisgyblion.

---

***C: A fydd ffreutur yr ysgol yn paratoi bwyd a diod?***

A: Na fydd. Bydd rhaid i bob disgyblion ddod â phecyn bwyd gyda hwy ar y tri diwrnod yn byddant yn bresennol, gan na allwn ddarparu arlwyaeth ysgol. Dylai disgyblion ddod â'u bwyd a diod eu hunain i'r ysgol **am y diwrnod cyfan**. Mae hyn yn cynnwys disgyblion sydd fel arfer yn derbyn prydau ysgol am ddim. Bydd rhieni/gofalwyr y plant hyn yn cael taliad neu daleb yn lle pryd bwyd a ddarperir gan yr ysgol.

***C: Sut fydd yr ysgol yn sicrhau bod egwyl ac amser cinio'n ddiogel?***

A: Bydd egwyl ac amser cinio darwahanedig fel y gall disgyblion sy'n mynychu'r ysgol gadw at y pellter cymdeithasol. Cyn ac ar ôl bwyta bwyd, bydd rhaid cadw'n llym at olchi dwylo a glanhau. Yn ystod egwyl ac amser cinio, defnyddir y mannau awyr agored gymaint â phosibl.

***C: Oes rhaid i fy mhlentyn wisgo'r wisg ysgol pan fydd yn dychwelyd i'r ysgol?***

A: Nac oes. Ar y tri diwrnod y  bydd eich plentyn ar y safle, NI FYDD angen iddynt wisgo'r wisg ysgol. Ond, dylent ddod i'r ysgol mewn dillad sy'n hawdd eu golchi. Mae'n bwysig hefyd bod disgyblion yn gwisgo dillad glân ar bob diwrnod y maent yn bresennol.

***C: Beth fydd rhaid i fy mhlentyn ddod i'r ysgol?***

A: Ar y dyddiau y bydd eich plentyn yn mynychu'r ysgol, bydd rhaid iddynt ddod â nifer o eitemau gyda hwy. Soniwyd am rai ohonynt mewn cwestiynau blaenorol, ond dyma grynodeb:

- Pecyn bwyd
- Digon o ddiod am y dydd
- Eu pethau ysgrifennu eu hunain (pennau, pensiliau, rwber, pren mesur, cyfrifiannell, ayyb.)
- Dyfais ddigidol ar gyfer dysgu (gliniadur/iPad/tabled, ayyb.)

***C: Oes unrhyw eitemau na ddylai fy mhlentyn ei gludo i'r ysgol?***

A: Mae ein rhestr arferol o eitemau gwaharddiedig yn dal mewn grym yn ystod y cyfnod hwn, ac ni ddylid dod â ffonau symudol i'r ysgol oni bai bod hyn yn gwbl angenrheidiol, ac os felly, dylid eu storio'n ddiogel mewn bagiau. Dylid cadw cyfarpar arall y mae eich plentyn yn ei gludo i'r ysgol i'r lleiafswm mwyaf posibl.

***C: Fydd fy mhlentyn yn mynychu eu gwersi arferol yn ystod y tri diwrnod?***

A: Ni fydd yn bosibl i ddisgyblion fynychu eu gwersi ar yr amserlen arferol yn ystod y cyfnod hwn. Yn hytrach, dywedodd Llywodraeth Cymru y dylid canolbwyntio ar les. Adleisir hyn yng nghanllaw Cyngor Sir Powys, sy'n dweud: "*Mae'r cyfnod dychwelyd i'r ysgol ar gyfer 'ail-gydio, dal i fyny a pharatoi' ac, felly, ni fydd dysgu'n digwydd yn ei ffurf draddodiadol. Bydd y ffocws cryfaf ar les y dysgwyr i gyd.*" Bydd yr athrawon yn defnyddio'r amser gyda disgyblion i gefnogi'r dysgu a ddigwyddodd adref ac ail-afael yn y sgiliau meddwl, llythrennedd a rhifedd. Ond, lle'n bosibl, ein bwriad yw cynnal dysgu'n ymwneud â'r cwricwlwm i ddisgyblion Blynyddoedd 10 a 12.

---

***C: Beth fydd yn digwydd pan fydd y flwyddyn academaidd nesaf yn dechrau ym mis Medi 2020?***

A: Ar hyn o bryd, fel pob pennaeth ar draws y wlad, dydw i ddim yn siŵr sut beth fydd dechrau ym mis Medi. Er hynny, dywedodd Llywodraeth Cymru bod rhaid i ysgolion a disgyblion baratoi ar gyfer y 'normal newydd'. Ym mis Medi, mae hyn yn degyg o gynnwys cyfuniad o ddysgu wyneb-yn-wyneb a dysgu ar-lein. Bydd y cyfnod pedair wythnos nesaf hyn rhwng dydd Llun 29ain Mehefin i ddydd Gwener 24ain Gorffennaf yn rhoi cyfle i ddisgyblion a staff i ymgyfarwyddo â'r dull hwn ac yn paratoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol ym mis Medi. Cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru'n diweddaru'r canllaw, byddaf yn cysylltu â chi eto gyda chynlluniau Ysgol Calon Cymru ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd 2020/21.

---

Rwy'n ymwybodol iawn y bydd ymateb cymysg gan ein rhieni/gofalwyr ynglŷn â disgyblion yn dychwelyd i Ysgol Calon Cymru. Rwy'n siŵr y bydd rhai ohonoch yn croesawu'r cam cyntaf tuag at ddychwelyd i 'normalrwydd', ond bydd eraill yn teimlo ei bod yn rhy gynnar i anfon eich plentyn nôl i'r ysgol. Beth bynnag yw eich barn, hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am eich amynedd a chydweithrediad. Fel rydych yn deall, gobeithio, mae cymaint o ddull yr ysgol yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir ar lefel genedlaethol a lleol.

Rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at groesawu cymaint o'n disgyblion â phosibl nôl i Ysgol Calon Cymru ar ddiwedd y mis hwn. Er y bydd y sefyllfa ymhell o fod yn un arferol, ar gyfer y rheiny fydd yn dychwelyd mae'n gyfle i ailgydio mewn

perthnasoedd wyneb-yn-wyneb pwysig gyda staff yr ysgol a'u cyd-ddysgwyr. I ailadrodd barn Llywodraeth Cymru, mae'r cyfnod hwn o bedair wythnos yn rhoi cyfle hanfodol i ddisgyblion ailgydio gyda'u hathrawon a chyd-ddisgyblion, dal i fyny gyda'u cylch cymdeithasol a pharatoi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Byddaf yn ysgrifennu atoch eto cyn gynted ag y bydd ein cynlluniau i ail-agor Ysgol Calon Cymru yn gyflawn.

Cofion Cynnes





Dr. Richard Jones
Pennaeth, Ysgol Calon Cymru